# CYNGOR ARBENNIG 21/1/10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Tudor Owen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, Stephen Churchman, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Charles Wyn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dilwyn Lloyd, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams, Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), W E Jones (Uwch Rheolwr Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Peter Evans (Uwch Reolwr Prosiectau), Stephen Jones (Uwch Reolwr Gwastraff), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Eraill yn bresennol:** Anthony Barrett ac Amanda Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr E T Dogan, Alun Wyn Evans, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Christopher Hughes, Brian Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, Dewi Llewelyn, June Marshall, Dafydd Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Roberts, Guto Rhys Tomos a Gethin Glyn Williams

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Dyfed Edwards

## 2 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Datganodd y Cynghorwyr Bob Anderson, Dylan Edwards, John Gwilym Jones a Dyfrig Siencyn fuddiant personol yn yr eitem Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgownt oherwydd eu bod yn berchen eiddo sy'n wag

(ii) Datganodd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones ddiddordeb yn y rhybudd o gynnig ynglŷn â Sioe Frenhinol Cymru oherwydd ei fod yn aelod etholedig o Bwyllgor Ymgynghorol y Sir.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau.

## 3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

(i) Teulu'r Athro Hywel Teifi Edwards, oedd yn ffigwr cenedlaethol amlwg mewn sawl maes yng Nghymru

(ii) Teulu Dafydd Whittall, fu'n Gyfarwyddwr Addysg a Diwylliant ac yna'n Gyfarwyddwr Strategol, Cyngor Gwynedd. 'Roedd yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn weithgar gyda nifer helaeth o gyrff cyhoeddus ym maes iaith a diwylliant Cymru.

Rhoddwyd teyrnged i Dafydd Whittall gan y Cynghorydd W Penri Jones, cyn Arweinydd Portffolio Addysg, Cyngor Gwynedd.

(iii) Trigolion Haiti yn dilyn y ddaeargryn ddychrynllyd yno'n ddiweddar, a gwahoddwyd unrhyw aelod oedd yn dymuno cyfrannu at yr Apêl anfon cyfraniad at Siân Ellis Williams, Swyddog Dinesig neu'r Cadeirydd erbyn diwedd y mis.

Cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd, fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(b) Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu hymdrechion arbennig i sicrhau parhad y gwasanaethau yn ystod y tywydd garw diweddar.

(c) Llongyfarchwyd y canlynol:-

(i) Y Cynghorydd Gethin Williams a'i wraig ar enedigaeth mab.

(ii) Y Cynghorydd Caerwyn Roberts ar gael yr OBE yn Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines

(iii) Cyfeiriwd at ymdrech i hybu cymdeithasu anffurfiol ymysg staff y Cyngor. Nodwyd y cynhaliwyd cystadleuaeth Bowlio 10 Cyngor Gwynedd am y tro cyntaf ddiwedd Tachwedd, 2009. Bu'r noson yn llwyddiant ysgubol gydag ymhell dros 100 o staff yn cymryd rhan, a thîm "Hogia' Groeslon" yn dod yn fuddugol.

(iv) Hefyd cynhaliwyd nifer o weithgareddau i godi arian at Blant Mewn Angen yn ystod Tachwedd 2009 a llongyfarchwyd staff y Cyngor ar godi £2,193.00.

(ch) Cyfeiriwyd at wasanaeth oedd yn cael ei gynnal fel rhan o drefniadau Diwrnod Coffau'r Holocaust.

Anogwyd pawb i fynychu'r gwasanaeth yn Neuadd y Penrhyn, Bangor am 10.30 am ddydd Mercher, 27 Ionawr 2010, gan ymuno â miloedd o bobl drwy'r byd i gofio'r gorffennol a gosod seiliau ar gyfer byd diogel a theg i'r dyfodol.

Ymddiheuriad

Ymddiheurodd y Cynghorydd Louise Hughes i'r Cyngor, oherwydd iddi bleidleisio mewn camgymeriad, ar welliant yn ymwneud ag Ad-drefnu Addysg Gynradd yn Nalgylch Tywyn, yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, pan oedd wedi datgan diddordeb yn y mater.

**8 STRATEGAETH GWASTRAFF**

(i) Cyflwynwyd adroddiad gan Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Strategaeth Wastraff 2010- 2025, i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

(ii) Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn egluro cynnwys y strategaeth.

Eglurwyd mai amcan y strategaeth oedd lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a lleihau'n sylweddol dibyniaeth ar dirlenwi, drwy gynyddu lefelau ailgylchu a chompostio gwastraff.

Nodwyd mai strategaeth newydd y Cynulliad oedd y prif elfennau oedd yn gyrru'r Strategaeth, sef:-

- amcan hir dymor i wneud Cymru yn genedl ddiwastraff erbyn 2050
- amcan tymor canolig i gael cymdeithas 'ailgylchu uchel' erbyn 2025
- gosod targed bod 70% o wastraff i'w ailgylchu/compostio erbyn 2025
- cyfyngu ar yr hyn ellir ei dirlenwi o wastraff bwrdeistrefol yn flynyddol i 10% yn 2020 a 5% yn 2025
- pwyslais ar wahanu ac ymdrin â gwastraff bwyd, sef
  -rhaid compostio 12% o wastraff bwyd erbyn 2012/13
  -rhaid compostio 14% o wastraff bwyd erbyn 2015/16
  -rhaid compostio 16% o wastraff bwyd erbyn 2024/25
- pwyslais ar ddatblygu technoleg Anaerobig Dreuliad (AD) ar gyfer gwastraff bwyd
- cyfyngiad o 30% ar y gwastraff gellir ei ddefnyddio ar gyfer creu ynni yn 2024/25
- cyfyngiad o 150kg gwastraff tŷ pob person erbyn 2024/25.

Manylodd ar dargedau heriol newydd y Cynulliad fesul "blynyddoedd cerrig filltir" hyd 2024/25. Eglurodd bod y Cynulliad yn ystyried gwneud y targedau ailgylchu a chompostio (gan gynnwys targedau ar fwyd) yn rhai statudol, gyda dirwyon posibl, os na fydd awdurdodau'n cyrraedd y targedau. Hefyd cyfeiriodd at y lwfans tirlenwi fesul blwyddyn hyd 2024/25 a dirwyon i awdurdodau os na fyddant yn cadw o fewn y lwfans.

Cyfeiriodd at y strategaeth wastraff a'r cynllun gweithredu ar gyfer 2005-09, manylodd ar y datblygiadau hyd heddiw. Eglurodd bod perfformiad y Cyngor y erbyn y targedau a osodwyd gan y Cynulliad wedi bod yn llwyddiannus. Roedd y Cyngor wedi cyrraedd targed ailgylchu a chompostio ac wedi cadw o fewn y lwfans tirlenwi, ac nid oedd wedi derbyn unrhyw gosb ariannol.

Manylodd ar y targedau tebygol a osodir gan y Cynulliad ar gyfer 2010-2025. Nodwyd bod targedau uchelgeisiol (hyd at 70%) ar gyfer ailgylchu a chompostio, a bydd angen cynyddu ar gasglu gwastraff bwyd o 2012/13 ymlaen. Eglurwyd bod y lwfans tirlenwi'n gostwng yn sylweddol yn 2012/13. 10% yn unig o'r holl wastraff fydd yn bosibl ei dirlenwi erbyn 2020, a bydd yn ffigwr yn gostwng i 5% erbyn 2025. Hefyd, nodwyd y bydd cyfyngiad ar y maint o wastraff gaiff ei losgi ar gyfer creu ynni o 2015/16 ymlaen, a bydd yn gostwng i 30% erbyn 2024/25.

Eglurodd y Pennaeth bod y Cynllun Gweithredu 2010/11-2014/25 yn ei lle ar gyfer cyflawni'r Strategaeth a manylodd ar gynnwys y Cynllun am y cyfnod i ddod, sef:-

- Rhesymoli Cylchdeithiau Ardal Arfon – Ionawr 2010
- Adolygu Gwastraff Masnachol 2009/10 i 2010/11
- Darparu Canolfannau Ailgylchu Ychwanegol 2010/11
- Darparu Canolfan Adennill Deunyddiau yn Ne Gwynedd 2010/11
- Addasu Canolfan Adennill Deunyddiau Caergylchu 2010-2012
- Ymestyn Casgliadau Ailgylchu (bocs glas) i ddeunyddiau eraill 2010-2012
- Lleihau cynhwysydd gwastraff gweddilliol o 2010 ymlaen
- Mesurau Eraill i Gynyddu Ailgylchu a Chompostio (2012-2017)
- Ymdrin â gwastraff bwyd o 2012/13 ymlaen (Prosiect GwyrIAD)
- Ymdrin â Gwastraff Gweddilliol (Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru 2016/17 ymlaen)

Eglurwyd mai sefydlu darpariaeth i ymdrin â gwastraff bwyd (prosiect GwyriAD) a sefydlu trefniadau ar y cyd ar draws Gogledd Cymru i ymdrin â gwastraff gweddilliol (Prosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru) fydd yr elfennau mwyaf costus i'r Cyngor. Nododd

y bydd y ddau brosiect yn cael eu darparu gan ddarparwyr preifat, ac er bod y Cynulliad yn cynnig cymorth ariannol tuag at sefydlu'r cyfleusterau, eglurodd y bydd angen buddsoddiad sylweddol ar ran y Cyngor. Eglurodd y byddai peidio ymgymryd â'r cyfleusterau'n golygu cost llawer uwch i'r Cyngor.

Cyfeiriodd ar y prif risgiau oedd ynghlwm â'r strategaeth, mesurau ar gyfer lliniaru'r risgiau hynny, a goblygiadau o fethu cyflawni'r strategaeth.

Pwysleisiodd y Pennaeth y byddai gwneud dim, sef parhau gyda'r ddibyniaeth ar dirlenwi, â goblygiadau ariannol llawer uwch na gwireddu'r strategaeth. Nodwyd y byddai yna gost sylweddol i'r Cyngor o weithredu'r strategaeth a rhoddwyd manylion o'r costau tebygol hynny ond cymharywd hynny gyda'r gost o wneud dim oedd yn llawer uwch dros yr un cyfnod.

Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

Diolchwyd i'r Pennaeth am ei gyflwyniad cynhwysfawr.

(iii) Rhoddwyd cyfle i aelodau gyflwyno sylwadau a chwestiynau.

Ymhelaethodd y Pennaeth ar agweddau o'r strategaeth mewn ymateb i ymholiadau a phryderon aelodau.

Roedd cefnogaeth gref i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu. Hefyd roedd cytundeb y bydd problemau'n siŵr o godi wrth weithredu'r strategaeth, ond y bydd modd datrys y problemau trwy gydweithio a chyd-drafod.

Cyfeiriodd aelod at y buddsoddiad sylweddol oedd ynghlwm â Phrosiect GwyrIAD a Phrosiect Trin Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Nododd bod potensial yma i greu cyflogaeth, a'i bod yn bwysig sicrhau bod y darparwyr yn cyflogi pobl leol. Hefyd nododd bod angen sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael yn lleol.

Nododd aelod arall bod newid diwylliant, codi ymwybyddiaeth ac addysgu, yn holl bwysig i lwyddiant y Strategaeth, a diolchwyd i drigolion y sir am ymateb yn bositif a chadarnhaol i'r strategaeth hyd yma. Nododd sawl aelod eu bod yn hyderus y bydd y trigolion yn parhau i gyfarch y strategaeth yn bositif, a'u bod yn gobeithio y bydd modd osgoi gorfodaeth ar bobl Gwynedd.

Diolchwyd i'r Pennaeth, y staff a'r gweithlu am eu gwaith clodwiw yn y maes

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Strategaeth Wastraff ar gyfer 2010-2025 gan gynnwys ymrwymiad i ddarparu'r adnoddau fel y'u hamlinellwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol.**

## 9 ARGYMHELLION STATUDOL YR ARCHWILIWR AR GYFRIFON 06/07

Croesawyd Anthony Barrett ac Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod ar gyfer cyflwyno argymhellion statudol yr Archwiliwr ar Gyfrifon 2006/07, yn dilyn ymholiad i wrthwynebiad i gyfrifon 2006/07.

Eglurwyd bod aelodau wedi anwybyddu cyngor proffesiynol swyddogion mewn perthynas â datblygiad arfaethedig Wern Manor, Porthmadog, ac nad oedd tystiolaeth glir o wrthwynebiad yr aelodau i'r datblygiad ar sail cynllunio cyn y penderfyniad ym Mehefin 2006. Comisiynwyd adroddiadau dilynol gan ymgynghorwyr i amddiffyn y penderfyniad a

wnaed, yn hytrach na chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Pe byddai adroddiadau'r ymgynghorwyr ar gael pan wnaed y penderfyniad, nodwyd ei bod yn bosibl y byddai'r arolygydd wedi dod i benderfyniad gwahanol o ran dyfarnu costau yn erbyn y Cyngor, a'i bod yn bwysig rhoi trefniadau mewn lle i osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol.

Fel canlyniad, roedd yr Archwiliwr yn argymell bod rhaid i aelodau sicrhau bod tystiolaeth ddigonol ar gael i ategu sail eu penderfyniad pan fyddant yn groes i gyngor proffesiynol swyddogion. Hefyd wrth ddarparu tystiolaeth, dylai amseriad y dystiolaeth a'r defnydd ohoni lywio'r penderfyniad cynllunio yn y lle cyntaf, nid eu cyfiawnhau yn ôl-weithredol.

Nododd aelod y bydd angen gohirio penderfyniadau sy'n groes i gyngor proffesiynol swyddogion, er mwyn comisiynu gwybodaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol ar y mater, ac y bydd hyn yn oedi'r broses.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion yr Archwiliwr ar gyfrifon 2006/07**

## 10 STRATEGAETH HYFFORDDI AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i fabwysiadu disgrifiadau o rôl a chyfrifoldebau a chymwyseddau ac ymddygiadau ar gyfer Aelodau Cyngor Gwynedd ac Aelodau'r Bwrdd.

Yn dilyn cymeradwyo strategaeth datblygu a hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer aelodau ym Mai 2009, adroddwyd yr aethpwyd ati i ddatblygu'r dogfennau oedd gerbron, a bod aelodau wedi bod yn rhan allweddol o'r broses.

Eglurwyd mai pwrpas y dogfennau oedd gosod sylfaen neu feincnod o'r hyn y mae aelodau eu hunain wedi cytuno y byddai'r aelod delfrydol yn ei arddangos. Er na fydd pob aelod yn cyrraedd pob elfen o'r safon, wrth ddogfennu'r disgwyliadau, nodwyd bod modd i bob aelod gymharu eu cyrhaeddiad yn erbyn y disgwyliad, a thrwy hynny dargedu rhaglen hyfforddi fydd yn sicrhau fod cynllun datblygu personol yn cael ei deilwra ar gyfer pob aelod unigol.

Mynegodd aelod wrthwynebiad i'r dogfennau oedd gerbron, gan nodi eu bod yn nawddoglyd a diangen.

Roedd aelodau eraill yn eu croesawu'n fawr, gan nodi y byddant yn ddefnyddiol iawn ar gyfer aelodau newydd dibrofiad.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r dogfennau canlynol fel rhan o'r Strategaeth Hyfforddi aelodau:-**
**(i) Gwerthoedd y Cyngor.**
**(ii) Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau Cyngor Gwynedd.**
**(iii) Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd.**
**(iv) Cymwyseddau ac Ymddygiadau Aelodau Cyngor Gwynedd.**
**(v) Cymwyseddau ac Ymddygiadau Aelodau'r Bwrdd**

## 11 DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i gyflawni mân ddiwygiadau i gyfansoddiad y Cyngor.

Adroddwyd bod y Bwrdd wedi mabwysiadu cyfres o brotocolau yn ymwneud â chyfrifoldebau statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i bod yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu'r protocol newydd fel rhan o'r Cyfansoddiad i gymryd lle'r protocol presennol.

Hefyd, nodwyd bod angen cau bylchau oedd yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion oherwydd deddfwriaeth newydd a.y.b., er mwyn gwarchod swyddogion a'r Cyngor rhag her gyfreithiol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r diwygiadau mewn perthynas â Phrotocol ar weithredu dyletswyddau statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynllun dirprwyo i Swyddogion.**

## 12 AROLWG FFINIAU ETHOLIADOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gyflwyno sylwadau cychwynnol gan y Cyngor ar arolwg o drefniadau etholaethol ar gyfer sir Gwynedd.

Adroddwyd bod arolwg o drefniadau etholaethol ar gyfer Gwynedd wedi cychwyn ddechrau Tachwedd, gyda chyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau i holl aelodau'r Cyngor. Gwahoddwyd sylwadau cyn i'r Comisiwn ffurfio argymhellion drafft, anfonwyd holiadur at holl aelodau'r Cyngor, ac ystyriwyd yr atebion oedd i law gan Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol, er mwyn llunio sylwadau cychwynnol.

Eglurwyd bod sylwadau cychwynnol y Cyngor yn seiliedig ar yr egwyddorion neu'r meini prawf y gofynnir i'r Comisiwn eu hystyried wrth lunio eu cynigion. Nodwyd y bydd cyfle pellach i ystyried argymhellion y Comisiwn.

Mynegodd aelod bryder y bydd gostwng nifer yr aelodau yn golygu y bydd aelod yn gyfrifol am ardal ehangach ac y gall arwain at yr angen i newid deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r gwaith. Cyfeiriodd at y ffaith bod aelod yn cael ei gyfyngu i fod yn llywodraethwr ar ddwy ysgol yn unig ar hyn o bryd, ac y gall hyn gyfyngu ar allu aelod i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn llawn gan y gallai ehangu'r ward etholiadol olygu bod sawl ysgol o fewn ward. Nodwyd y dylid gofyn i'r Comisiwn rhoi sylw i'r angen i newid unrhyw reoliadau o ganlyniad i ehangu ardaloedd.

Nodwyd bod y Cyngor wedi penderfynu cynnig lleihau nifer aelodau o 75 i 65 fel rhan o Strategaeth Arbedion, ond na fydd modd gweithredu'r arbedion arfaethedig os na fydd y Comisiwn yn parhau a'r gwaith.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r sylwadau cychwynnol i'w hanfon at y Comisiwn Ffiniau ynghyd a gofyn i'r Comisiwn roddi sylw i'r angen am newid rheoliadau o ganlyniad i ehangu ardaloedd ac anfon sylwadau at y cyrff priodol.**

## 13 POLISI GAMBLO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar fabwysiadu Polisi Gamblo Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ei Bolisi Gamblo bob tair blynedd, a bod cyfeiriadau at drefniadau trosiannol wedi eu diddymu o'r polisi, a chanllawiau newydd ynglŷn â lotrïau bychain a diwygiadau ynglŷn â gwerth gwobrau wedi eu cynnwys yn y polisi newydd.

Nodwyd bod y Pwyllgor Trwyddedu Canolog wedi cymeradwyo'r newidiadau ac wedi argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Polisi Gamblo ddiwygiedig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi Gamblo am gyfnod o hyd at dair blynedd.**

## 14 TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i geisio cadarnhad o'r penderfyniadau i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag am 2010/11 ac wedi hynny.

Croesawyd y polisi i beidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag gan ei fod yn hyrwyddo dod ag anheddau gwag yn ôl i ddefnydd.

Pwysleisiodd aelod bod angen rhoi pwyslais ar ddychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Nododd ei fod yn fater oedd yn berthnasol i'r aelodau i gyd. Cyfeiriodd at y faith mai dim ond un aelod etholedig oedd ar y Gweithgor Tai Gwag, a bod angen ystyried cynyddu'r aelodaeth.

Cyfeiriodd aelod at y nifer helaeth o garafannau oedd yng Ngwynedd, a gofynnodd i swyddogion edrych ar sefyllfa carafannau o fewn y dreth erbyn y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD fod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2010/2011 a thu hwnt:-**

**(i) yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998**

**(ii) yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C, sef eiddo sy'n ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis)**

**(iii) cadarnhau bod y polisi yma'n parhau tu hwnt i 2010/11 ac ymhellach, hyd nes bydd eitem berthnasol yn cael ei daflennu ar raglen y Cyngor llawn**

## 15 RHYBUDDION O GYNNIG

(a)(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd o dan Reol Gweithdrefn rhif 13, ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Bod y Cyngor hwn yn cyfyngu cyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio Canolog i drafod materion cynllunio sy'n berthnasol i Wynedd yn ei chyfanrwydd, megis chwarelu, mwyngloddio, llifogydd a'r diwydiant ynni ac yn y blaen, gan adael y Pwyllgorau Cynllunio Ardal i ymdrin â cheisiadau cynllunio perthnasol i'w hardaloedd ac yn atebol i'r Cyngor Llawn"***

(ii) Ymhelaethodd yr aelod ar ei gynnig.

(iii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar effaith y cynnig ar Gyfansoddiad y Cyngor.

(iv) Adroddodd Uwch Arweinydd Amgylchedd bod y cynnig i newid swyddogaethau'r pwyllgor yn gynamserol, oherwydd bod gweithgor yn y broses o ymchwilio i drefniadau ar gyfer delio gyda cheisiadau cynllunio. Eglurodd bod bwriad ymgynghori gyda'r pwyllgorau ardal ar gasgliadau'r Gweithgor, cyn cyflwyno adroddiad terfynol gerbron y Cyngor.

Nododd sawl aelod bod yr adroddiad yn hir ddisgwyliedig, bod y gweithgor yn araf i gwblhau'i waith, a gofynnwyd i swyddogion gyflwyno adroddiad terfynol y gweithgor i'r Cyngor ym mis Mai.

Cynigiwyd, eiliwyd a chariwyd gwelliant i ohirio trafodaeth yn ymwneud â rôl y Pwyllgor Cynllunio Canolog tan fis Mai 2010, pan fydd y Cyngor llawn yn ystyried adroddiad y gweithgor ar drefniadau ymdrin â cheisiadau cynllunio.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig gwreiddiol, a phleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi'i wella.

**PENDERFYNWYD gohirio trafodaeth yn ymwneud â rôl y Pwyllgor Cynllunio Canolog tan fis Mai 2010 pan fydd y Cyngor yn ystyried adroddiad y Gweithgor ar drefniadau ymdrin â cheisiadau cynllunio.**

(b)(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Reol Gweithdrefn rhif 13, ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Bod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu polisi o roddi'r hawl penodi Dirprwy i gynrychioli grŵp mewn pwyllgor lle mae'r aelod a benodwyd yn methu mynychu oherwydd amgylchiadau arbennig h.y. gwaeledd, profedigaethau neu fater arall na ragwelwyd o flaen llaw."***

(ii) Ymhelaethodd yr aelod ar ei gynnig.

(iii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar faterion ymarferol, cyfansoddiadol a chyfreithiol ynglŷn â'r cynnig.

(iii) Adroddodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn cytuno gydag ysbryd y cynnig. Fodd bynnag, roedd yn pryderu na fydd penodi eilydd i gymryd lle aelod sefydlog am gyfarfod penodol yn hwyluso'r broses ddemocrataidd gan na fyddai'r eilydd yn meddu ar y wybodaeth gefndirol a'r arbenigedd angenrheidiol.

Pwysleisiodd y Swyddog Monitro bod modd o fewn y rheolau presennol i'r grwpiau gwleidyddol newid eu haelodau ar bwyllgor yn barhaol neu dros dro, a bod hyn yn cael ei weithredu gydag absenoldeb salwch tymor hir. Fodd bynnag os oedd dymuniad i newid aelodaeth yn ddirybudd, awgrymodd y dylid cyfeirio'r mater i bwyllgor ystyried trefniadau addas.

Cynigiwyd, eiliwyd a chariwyd gwelliant i gyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu ystyried opsiynau posibl ar gyfer gweithredu trefn addas.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi cymryd lle'r cynnig gwreiddiol, a phleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi ei wella.

**PENDERFYNWYD cefnogi ysbryd y cynnig gwreiddiol, sef bod eilydd yn cymryd lle aelod sefydlog sydd methu mynychu pwyllgor oherwydd amgylchiadau arbennig, a chyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu ystyried opsiynau posibl ar gyfer gweithredu trefn addas.**

(c)(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd John Pughe Roberts o dan Reol Gweithdrefn rhif 13, ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Yn y flwyddyn 2011, yr hen Sir Gaernarfon, sef rhan o Wynedd a rhan o Sir Conwy fydd yn noddi Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Mae ymdrechion ar dro ar draws y sir i godi arian i hybu'r sioe, ac i'w wneud yn ŵyl lewyrchus a chofiadwy.***

***Yn wyneb hyn, mae rhieni ac athrawon yn ogystal ag eraill sy'n gweithio yn ein hysgolion wedi dwyn i sylw'r anhawster sy'n ein hwynebu oherwydd gwyliau ysgol yng Ngwynedd a Sir Conwy.***

***Mae'r sioe i'w chynnal o ddydd Llun hyd ddydd Iau sef o'r 19eg hyd 22ain Gorffennaf. Yn anffodus fel mae trefniadau ar hyn o bryd nid yw'r ysgolion yn cau tan 21ain Gorffennaf 2011, a gall hyn amharu yn enfawr ar drigolion Gwynedd yn ogystal â phresenoldeb ar faes y sioe. Yn wyneb synnwyr cyffredin, er budd pawb, rwyf yn cynnig fod ysgolion Gwynedd fel ysgolion eraill yng Nghanolbarth a De Cymru yn cau ar y dydd Gwener, 16 Gorffennaf 2011"***

Ymhelaethodd yr aelod ar ei gynnig

(ii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu'r drefn a ddilynwyd, a'r cyd-ymgynghori a gyflawnwyd ar draws chwe awdurdod Gogledd Cymru, yr ysgolion a'r undebau, wrth osod dyddiadau gwyliau 2010-2016, a goblygiadau newid y dyddiadau gwyliau.

Ymhelaethodd y Pennaeth ar y trefniadau a'r goblygiadau.

Pwysleisiodd bod trefn sefydlog o gydymgynghori yn ei lle, a rhag tanseilio'r drefn honno, awgrymodd ei fod yn cyflwyno sylwadau'r Cyngor i'r Grŵp Tasg Rhyng-Awdurdod Gogledd Cymru, y fforwm unedau a phenaethiaid ysgolion, er mwyn ceisio'u barn ynglŷn â newid y dyddiadau gwyliau.

Fodd bynnag, eglurodd y bydd yn broblemus dod o hyd i dri diwrnod ysgol i gymryd eu lle. Awgrymodd y gellid ceisio datrysiad lleol, trwy gyfuniad o adennill dyddiau trwy sesiynau oriau gwyll ar gyfer HMS a defnyddio hawl rhieni i ofyn am ddyddiadau ychwanegol dan drefniadau amgen. Yn ogystal, awgrymwyd y gallai ysgolion drefnu tripiau i'r Sioe, a thrwy hynny rhoi cyfle i fwy o ddisgyblion fynychu'r sioe ac ennill o'r profiad.

Nododd aelod y byddai'n fanteisiol ceisio patrwm cenedlaethol trwy Lywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, awgrymwyd gofyn i Brif Weithredwr y Sioe i anfon manylion dyddiadau a noddwyr mewn da bryd at holl awdurdodau Cymru, er mwyn hwyluso trefniadau.

Gyda chytundeb cynigydd ac eilydd y cynnig gwreiddiol, cytunwyd i welliant i ofyn i swyddogion addysg Gwynedd gynnal y trafodaethau sydd eu hangen, er mwyn gweithredu ar ddymuniad y Cyngor i alluogi i rieni a phlant y sir i fynychu'r Sioe Fawr yn 2011. Hefyd i swyddogion addysg gysylltu â Gweinidog Addysg y Cynulliad, a chynnig trefniant gwyliau ysgol gyffredin i Gymru gyfan fydd yn ystyried digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol.

Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi ei wella.

**PENDERFYNWYD**

**(I) Bod y Cyngor yn parchu'r camau a gymrwyd gan swyddogion addysg a'r Grŵp Tasg Rhyng-Awdurod Gogledd Cymru i gydgordio dyddiadau gwyliau am y**

**cyfnod 2010 - 2016 yn y rhanbarth, ac yn gofyn i swyddogion addysg Gwynedd gynnal y drafodaeth sydd ei angen er mwyn gweithredu ar ddymuniad y Cyngor hwn er mwyn galluogi i rieni a phlant y sir fynychu'r sioe Fawr yn 2011;**

**(II) Bod swyddogion addysg trwy Gymdeithas Cyfarwyddwr Addysg Cymru yn cysylltu gyda Gweinidog Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chynnig trefniant gwyliau ysgol gyffredin i Gymru gyfan fydd yn ystyried digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol**

**(III) Gofyn i'r Pennaeth Addysg weithredu ar benderfyniadau (i) a (ii) uchod.**

(ch)(i)Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Louise Hughes dan Reol Gweithdrefn rhif 13, ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Rwyf yn cynnig bod safle Tonfannau ger Tywyn yn cael ei ystyried o ddifrif fel lleoliad ar gyfer y carchar newydd arfaethedig i ogledd Cymru.***

***Gan fod safle Ferodo ger Caernarfon erbyn hyn wedi'i ddileu o'r broses (sy'n newyddion trychinebus i economi Gwynedd), mae'n hanfodol nad yw Cyngor Gwynedd yn colli'r symbyliad i ddilyn yr amcan hwn yn egnïol."***

Ymhelaethodd yr aelod ar ei chynnig.

(ii) Cyflwynwyd adroddiad Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar ofynion y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer safle'r carchar, nodweddion safle Tonfannau Tywyn ac ystyriaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Adroddodd aelod y byddai lleoli carchar yn Nhonfannau yn dod â manteision i'r ardal, ond nododd bod gofynion y Weinyddiaeth Amddiffyn yn uchelgeisiol iawn ac yn debygol o fod y tu hwnt i'r gofyn.

Mynegodd bryder cyffredinol ynglŷn â dyfodol de Meirionnydd. Nododd bod angen amddiffyn a hyrwyddo buddiannau'r ardal, a bod angen astudiaeth fanwl ar adfywio'r ardal. Hefyd nododd bod angen ystyried a fyddai carchar o'r maint dan sylw'n gydnaws â'r gofynion lleol ac a fyddai'n newid cymeriad yr ardal am byth.

Nododd aelod arall bod gwahoddiad wedi'i ymestyn i awdurdodau Gogledd Cymru gynnig safleoedd erbyn canol Chwefror ac ni ddylai'r Cyngor oedi penderfyniad rhag llyffetheirio ymdrechion a cholli cyfle.

Adroddodd Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod gohebiaeth wedi'i gyfnewid gyda 'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, a'i bod yn ymwybodol o safle Tonfannau a'i nodweddion. Eglurodd na dderbyniwyd ymateb hyd yma mewn perthynas â safle Tonfannau a'i bod yn bwysig bod y cysylltiad â'r gohebu'n parhau.

Ychwanegodd y bwriedir sefydlu gweithgor o blith aelodau Meirionnydd, er mwyn edrych ar gynllun cyflogaeth ar gyfer yr ardal er mwyn sicrhau bod cynlluniau economaidd yn eu lle, ar gyfer cwrdd â gofynion ac anghenion yr ardal.

Cynigiwyd ar eiliwyd a phasiwyd gwelliant i ychwanegu at y cynnig gwreiddiol bod sefydlu carchar yn Nhonfannau Tywyn yn cael ei graffu'n fanwl gan y Pwyllgor Datblygu yng nghyd destun dulliau eraill o hyrwyddo lefelau cyflogaeth sy'n addas ar gyfer Bro Dysynni.

Pleidleisiwyd a phasiwyd y cynnig fel ag yr oedd wedi ei wella.

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu'r cynnig, sef bod safle Tonfannau ger Tywyn yn cael ei ystyried o ddifrif fel lleoliad ar gyfer y carchar newydd arfaethedig i ogledd Cymru, ac awdurdodi Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwyr Corfforaethol i weithredu ar y cynnig**

**(ii) bod y mater o sefydlu carchar yn Nhonfannau Tywyn yn cael ei graffu'n fanwl gan y Pwyllgor Craffu Datblygu, a hynny yng nghyd -destun dulliau eraill o hyrwyddo lefelau cyflogaeth sy'n addas i Fro Dysynni.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.15 p.m.**

______________________________

**CADEIRYDD**